**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

3 Awst 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr ar 5 Gorffennaf, ynglŷn â'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a thariff cymdeithasol am ynni.

O ran y cynllun newydd sy’n cael ei arwain gan y galw, y cerrig milltir allweddol rydym yn gweithio iddynt yw:

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro | Awst |
| Dewis y cynigydd a ffefrir | Canol Hydref |
| Porth Sicrwydd | w / c 23 Hydref |
| Llythyrau Bwriad i Ddyfarnu (cyfnod segur o 2 wythnos) | Canol Tachwedd |
| Dyfarnu Contract | Diwedd Tachwedd |
| Dechrau Paratoadau | Diwedd Tachwedd |

Bydd cymhlethdod y pontio rhwng y contractau hen a newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar a oes cyflenwyr newydd ai peidio. Mae fy swyddogion mewn trafodaethau â'r cyflenwyr Nyth presennol i ddechrau trefniadau ar gyfer dod â Nyth i ben. Bydd yr estyniad i'r contract Nyth presennol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024 yn sicrhau na fydd bwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglenni newydd a'r rhaglenni presennol.

Byddwn yn gweithio gyda'r cynigwyr llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyntaf i ddatblygu'r cynllun ymhellach i gynnwys cynlluniau cymunedol ac ar raddfa fach o fewn ardal, megis trin teras o dai neu floc o fflatiau lle mai dyna'r ymyrraeth fwyaf priodol. Ni fydd hyn yn galw am ymarfer caffael ychwanegol.

Rhoddwyd mwy o gyngor i aelwydydd yn ystod gaeaf 2022/23, a oedd yn cynnwys ariannu nifer cynyddol o gynghorwyr ynni sy'n rhoi cymorth drwy ein gwasanaeth rhadffôn Nyth. Mae'r cynnydd hwn yn y capasiti wedi'i gadw eleni i wasanaethu'r galw ychwanegol. Byddwn yn gweithio gyda partneriaid ar ein Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd i ledaenu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

Rydym hefyd wedi lansio ein gwefan Gweithredu ar Newid Hinsawdd, gan ddangos y camau y gall pobl eu cymryd bob dydd i leihau ein heffaith ar y blaned. Mae hyn yn cynnwys

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ffyrdd o arbed arian ac ynni gartref drwy ymddygiadau a dewisiadau mwy gwyrdd ac effeithlon o ran ynni.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ddatblygu tariff cymdeithasol a pholisïau eraill i sicrhau amddiffyniad i gwsmeriaid bregus. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson ac yn uchel am ystod o fesurau i gefnogi'r rhai mewn angen yn well, gan gynnwys tariff ynni cymdeithasol. Rwy'n deall bod yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net wedi gwrando ac yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ar y mater hwn yn ddiweddarach eleni.

Rwy'n copïo'r ymateb hwn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change